ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

Teitl y cynnig:	**SLR-1026 – Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2026**
Swyddog(ion) sy'n cynnal yr Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):	**Tracy Dunning** **Yr Is-adran Galluogi Pobl**
Adran:	**Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio** **Y Grŵp Iechyd, Gofal ac Atal**
Pennaeth yr Is-adran/Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):	**Alistair Davey**
Yr Ysgrifennydd Cabinet/y Gweinidog sy'n gyfrifol:	**Delyth Jewell AS** **Y Dirprwy Weinidog dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd Meddwl ac Iechyd Menywod**

Dyddiad Dechrau:	**I'w gadarnhau**

ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN YSTYRIED EU CYMRYD A PHAM?

Ar ffurf naratif, disgrifiwch y mater a'r camau gweithredu a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Sut rydych wedi cymhwyso / sut y byddwch yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r camau gweithredu a gynigir yn y polisi a'r cylch cyflawni drwyddo draw?

Y Mater a'r Camau Arfaethedig

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol i gael gwared ar elw o ofal preswyl plant, llety diogel a gwasanaethau maethu. Erbyn 2030, bwriedir i'r ddarpariaeth gael ei chyflawni i raddau helaeth gan ddarparwyr nid-er-elw sydd wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), gan sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei ailfuddsoddi mewn canlyniadau i blant yn hytrach na'i echdynnu fel elw.

Wrth ddatblygu'r trefniadau sy'n deillio o Ddeddf 2025 a'r is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mater gweithredu penodol sy'n ymwneud â throsglwyddo gofalwyr maeth o wasanaeth maethu er-elw presennol i fusnes newydd a sefydlwyd i fodloni'r gofyniad nid-er-elw newydd a nodir yn Neddf 2025.

Pan fydd gwasanaeth maethu er-elw yn ailymsefydlu fel un o'r modelau nid-er-elw a ganiateir, ystyrir y gwasanaeth nid-er-elw newydd fel endid cyfreithiol newydd, hyd yn oed os yw'r bobl, y systemau a'r trefniadau gweithredol yn aros yr un fath. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddo fodloni'r holl ofynion cofrestru, llywodraethu a chymeradwyo gofalwyr maeth fel darparwr newydd, fel y'u rhagnodir mewn rheoliadau.

Gan fod y corff nid-er-elw newydd yn endid cyfreithiol gwahanol, ni all cymeradwyaeth a nodwyd ar gyfer gofalwyr maeth drosglwyddo o'r gwasanaeth maethu er-elw i'r gwasanaeth maethu nid-er-elw newydd. Rhaid i bob gofalwr maeth gael ei gymeradwyo eto gan y gwasanaeth newydd. Ar ben hynny, ni all gofalwyr maeth fod wedi'u cymeradwyo gan ddwy asiantaeth ar yr un pryd.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd angen i ofalwyr maeth sydd wedi'u cymeradwyo ar hyn o bryd gan wasanaeth maethu er-elw presennol ddilyn proses ailgymeradwyo lawn er mwyn parhau i faethu gyda gwasanaeth maethu nid-er-elw olynol, hyd yn oed lle nad oes newid yn eu hamgylchiadau na'u haddasrwydd. Byddai proses ailgymeradwyo lawn fel arfer yn cynnwys asesiad arall o addasrwydd y gofalwr maeth, gan gynnwys gwiriadau statudol a diweddaru geirdaon, ystyriaeth gan banel maethu, a phenderfyniad newydd gan yr asiantaeth. Byddai hyn yn creu baich gweinyddol ac ariannol sylweddol i ofalwyr maeth a darparwyr, a gallai arwain at darfu ar blant sydd eisoes mewn lleoliad.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig diwygio Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018 i ganiatáu, mewn amgylchiadau penodol iawn a lle mae amser yn brin, i gymeradwyaeth gofalwr maeth presennol gael ei throsglwyddo yn awtomatig o endid er-elw presennol i endid nid-er-elw newydd, lle mae parhad sefydliadol a gweithredol clir. Byddai mesurau diogelu yn atal bylchau neu gymeradwyaeth ddeuol, yn sicrhau goruchwyliaeth barhaus ac yn ei gwneud yn ofynnol cynnal adolygiad o fewn 12 mis.

Cymhwyso'r pum ffordd o weithio

Hirdymor

Mae'r cynnig yn cefnogi diwygio'r system dros gyfnod hirdymor, gan gynnwys pontio i ddarpariaeth nid-er-elw, y galw cynyddol am leoliadau a'r pwysau parhaus o ran y gweithlu. Heb ymyrraeth, gallai'r ailgymeradwyo gorfodol leihau'r capasiti gofalwyr maeth, annog gofalwyr i adael y gwasanaeth, a thanseilio digonolrwydd lleoliadau, gan arwain at fwy o ddibyniaeth ar leoliadau costus neu bellennig.

Drwy gynnal parhad gofalwyr maeth sydd wedi'u cymeradwyo, mae'r cynnig yn gwarchod y capasiti, yn helpu i ddal gafael ar y gweithlu ac yn lleihau unrhyw darfu ar blant, gan leihau dyblygu ar yr un pryd a chaniatáu i adnoddau gael eu hailgyfeirio tuag at ansawdd gofal a chymorth. Mae hefyd yn sicrhau y gellir osgoi costau ailasesu sylweddol i ddarparwyr, a allai fel arall ddargyfeirio adnoddau yn ystod y broses bontio, ac felly mae'n cefnogi sefydlogrwydd sefydliadol ac yn ei gwneud yn bosibl buddsoddi mewn llywodraethiant a gwella gwasanaethau. Bydd hyn yn helpu i sefydlogi'r ddarpariaeth yn ystod cyfnod o ddiwygio, adeiladu hyder ar draws y system a chefnogi'r newid hirdymor i fodel gofal nid-er-elw cynaliadwy, sy'n seiliedig ar werthoedd, gan gydnabod y cysylltiad agos rhwng cynnal perthynas sefydlog plant ag eraill a gwell canlyniadau i blant, gan gynnwys eu lles a'u cyrhaeddiad addysgol.

Atal

Cam ataliol yw'r cynnig, gan fynd i'r afael â risgiau cyn iddynt droi'n broblemau. Hebddo, gallai gofynion ailasesu greu oedi ac ansicrwydd, gan gynyddu'r tebygolrwydd o darfu ar leoliadau a dibynnu ar drefniadau brys.

Mae darparu ar gyfer cario cymeradwyaeth drosodd mewn amgylchiadau diffiniedig yn cefnogi parhad gofal, gan alluogi plant i aros mewn amgylchedd sefydlog gyda gofalwyr y maent yn ymddiried ynddynt. Mae hyn yn helpu i atal trallod emosiynol, tarfu ar addysg a chanlyniadau negyddol eraill sy'n gysylltiedig ag ansefydlogrwydd.

Mae hefyd yn atal pwysau diangen ar y gweithlu. Gall prosesau ailasesu arwain at rwystredigaeth a cholli brwdfrydedd ymhlith gofalwyr maeth, gan gynyddu'r risg y gallai

rhai ddewis camu i ffwrdd o faethu. Drwy leihau biwrocratiaeth, mae'r cynnig yn helpu i ddal gafael ar y gweithlu ac yn cynnal morâl.

Ar draws y system, mae'n osgoi dargyfeirio gallu proffesiynol i brosesau dyblyg, gan sicrhau bod adnoddau yn parhau i gael eu canolbwyntio ar gefnogaeth, recriwtio ac ansawdd gwasanaeth.

Mae unrhyw leihau ar graffu yn cael ei liniaru drwy fesurau diogelu, gan gynnwys gwiriadau dilysrwydd, goruchwyliaeth barhaus ac adolygiad gorfodol o fewn 12 mis, gan sicrhau sylw cyson.

Integreiddio

Mae'r cynnig yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gyfrannu at y canlynol:

- **Cymru iachach**: drwy gefnogi sefydlogrwydd emosiynol a seicolegol drwy barhad gofal, gan leihau'r trawma a'r gorbryder sy'n gysylltiedig â tharfu ar leoliad, a galluogi plant i adeiladu perthynas ddiogel o ymddiriedaeth â phobl, sy'n hanfodol ar gyfer eu lles a'u datblygiad yn gyffredinol.

- **Cymru sy'n fwy cyfartal**: drwy wella canlyniadau i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, sydd ymhlith y grwpiau mwyaf agored i niwed, a sicrhau nad yw newidiadau i'r system yn creu anfantais ychwanegol, gan helpu i leihau anghydraddoldebau mewn iechyd, addysg a chyfleoedd bywyd.

- **Cymru o gymunedau cydlynus**: drwy helpu plant i aros mewn lleoliadau sefydlog, teuluol o fewn neu yn agos at eu hardaloedd cartref, helpu i gynnal eu perthynas â theulu, ffrindiau ac ysgolion, a chryfhau eu hymdeimlad o berthyn ac o gysylltiad cymunedol.

- **Cymru lewyrchus**: drwy wella effeithlonrwydd ar draws y system, lleihau costau gweinyddol a dyblygu diangen, cefnogi sefydlogrwydd y gweithlu, a sicrhau bod adnoddau cyhoeddus yn cael eu cyfeirio tuag at wella gwasanaethau a chanlyniadau yn hytrach na phrosesau ailasesu beichus.

Mae hefyd yn cefnogi ymrwymiadau parhaus i gael gwared ar elw o ofal ac yn cyd-fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn enwedig dyletswyddau awdurdodau lleol i sicrhau digonolrwydd.

Mae integreiddio i'w weld drwy gysondeb cydgysylltiedig ar draws trefniadau goruchwylio rheoleiddiol, comisiynu, rheoli'r gweithlu a chyflenwi gwasanaethau. Mae systemau goruchwylio Arolygiaeth Gofal Cymru, cynllunio digonolrwydd awdurdodau lleol a phrosesau pontio darparwyr wedi'u cynllunio i weithredu'n gydlynol, gan sicrhau bod sicrwydd rheoleiddiol, capasiti lleoli a sefydlogrwydd y gweithlu yn cael eu cynnal ar yr un

pryd. Mae'r dull cydgysylltiedig hwn yn cydnabod y rhyngddibyniaeth rhwng yr elfennau hyn ac yn cefnogi ymateb cyson ar draws y system i'r cynllun pontio.

Mae'r cynnig hefyd yn atgyfnerthu ac yn galluogi gweithgarwch diwygio ehangach, gan gynnwys datblygu sylfaen o ddarparwyr nid-er-elw, cryfhau comisiynu lleol a rhanbarthol, ac ymdrechu i wella canlyniadau i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal drwy sefydlogrwydd a chefnogaeth gynnar. Drwy leihau cyfyngiadau wrth bontio rhwng darparwyr, gall y diwygiadau hyn symud ymlaen mewn ffyrdd sy'n ategu ac yn atgyfnerthu ei gilydd, gan gyfrannu hefyd at ganlyniadau gwell ar draws meysydd polisi cysylltiedig fel iechyd, addysg a chydlyniant cymunedol.

Cydweithio
Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys:

- Gofalwyr a rhwydweithiau maeth
- Darparwyr (er-elw a nid-er-elw)
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Awdurdodau lleol
- Cyrff cynrychiadol y sector

Mae adborth wedi tynnu sylw at risgiau ailasesu gorfodol ac wedi llywio datrysiad cymesur.

Bydd y broses weithredu yn parhau i ddibynnu ar gydweithio rhwng darparwyr, AGC ac awdurdodau lleol i reoli prosesau pontio, sicrhau cydymffurfiaeth a chynnal sefydlogrwydd o ran lleoliadau.

Cynnwys

Mae'r cynnig yn adlewyrchu profiadau gofalwyr maeth a phlant. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod sefydlogrwydd a pharhad yn hanfodol i les plant.

Mae gofalwyr maeth wedi nodi bod ailasesu yn feichus ac yn ddiangen lle nad oes newid sylweddol mewn amgylchiadau. Mae'r cynnig yn lleihau'r baich hwn ac ar yr un pryd yn cynnal mesurau diogelu.

Mae plant yn pwysleisio'n gyson bwysigrwydd perthynas sefydlog â phobl, ac ymddiriedaeth. Drwy leihau ar unrhyw darfu, mae'r cynnig yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau hyn.

Bydd y nod o gynnwys pobl yn gyson yn cael ei gefnogi drwy adborth, adolygiadau a phrosesau arolygu.

Effaith
Mae'r cynnig yn darparu manteision clir. Mae'n diogelu sefydlogrwydd a digonolrwydd lleoliadau, yn gwarchod perthynas plant ag eraill, ac yn lleihau ar unrhyw darfu ar blant.

Mae hefyd yn lleihau beichiau gweinyddol ac ariannol, gan ei gwneud yn bosibl ailgyfeirio adnoddau i wasanaethau rheng flaen.

Mae'n helpu i ddal gafael ar y gweithlu, yn cynnal y capasiti, ac yn ei gwneud yn bosibl gweithredu Deddf 2025 yn effeithiol heb ganlyniadau anfwriadol.

Mae'r risgiau'n cynnwys canfyddiad o lefel is o graffu, ac efallai anghysondeb wrth ddiffinio "parhad sefydliadol." Mae cymhlethdod gweithredol yn ystod cyfnod pontio hefyd yn ystyriaeth.

Mae'r rhain yn cael eu lliniaru drwy feini prawf cymhwysedd clir, goruchwyliaeth AGC, dilysu gwiriadau, parhad cefnogaeth ac adolygiad gorfodol o fewn 12 mis.

Mae rhai bylchau yn y dystiolaeth, gan gynnwys o safbwynt graddfa ac amseru prosesau pontio ac ymateb y gweithlu. Bydd y rhain yn cael eu rheoli drwy fonitro parhaus ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Costau ac arbedion

Disgwylir i'r cynnig gynhyrchu arbedion net drwy osgoi dyblygu ac atal tarfu ar leoliadau plant. Mae darparwyr yn elwa drwy osgoi costau ailasesu, gan gynnwys amser gwaith cymdeithasol, prosesau paneli a gwiriadau statudol, gan ei gwneud yn bosibl ailfuddsoddi mewn cefnogaeth, hyfforddiant a datblygu gwasanaethau. Mae awdurdodau lleol yn elwa drwy leihad yn y risg o fethiant lleoliadau ac yn y ddibyniaeth ar leoliadau brys costus, gan gefnogi digonolrwydd a sefydlogrwydd.

Er y bydd Llywodraeth Cymru ac AGC yn wynebu costau gweithredu cyfyngedig yn y tymor byr, disgwylir arbedion yn y tymor hirach, ac y bydd y strategaeth gyffredinol yn hwyluso defnydd mwy effeithiol o gyllid cyhoeddus drwy leihau gwariant diangen a chanolbwyntio adnoddau ar wella canlyniadau i blant.

Dull gweithredu

Bydd y cynnig yn cael ei gyflawni drwy Reoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2026 gan ddefnyddio'r weithdrefn annilysu (negyddol).

Mae hyn yn darparu ymateb cymesur a dargedir heb fod angen deddfwriaeth sylfaenol, gan ei gwneud yn bosibl gweithredu'n amserol.

Bydd AGC yn parhau i gadw golwg, gan gynnwys asesu parhad a sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion diogelu, goruchwylio ac adolygu.

Bydd yr Asesiad Effaith Integredig yn llywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan sicrhau yr ystyrir yr effeithiau yn llawn. Mae'r strategaeth hon hefyd yn caniatáu hyblygrwydd i ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg, gan sicrhau eglurder i randdeiliaid.

ADRAN 8. CASGLIAD

(Sylwer: bydd yr adran hon yn cael ei chyhoeddi)

8.1 Sut mae pobl y mae'r cynnig fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi cael eu cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Bydd proses ddatblygu'r cynnig yn cael ei llywio gan ymgysylltu strwythuredig â'r rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol yn cael ei gynnal, gan wahodd ymatebion gan ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys gofalwyr maeth, darparwyr (er-elw a nid-er-elw), awdurdodau lleol, AGC, a chyrff cynrychiadol.

Bydd yr ymgynghoriad yn holi barn sefydliadau sy'n cynrychioli plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys grwpiau eiriolaeth a Chomisiynydd Plant Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod y cynnig yn adlewyrchu blaenoriaethau plant, yn enwedig sefydlogrwydd, parhad gofal a chynnal perthynas plant â phobl y maent yn ymddiried ynddynt.

Bydd yr ymgynghoriad yn anelu at gasglu barn sefydliadau perthnasol a grwpiau cynrychiadol i nodi effeithiau posibl ar blant a gofalwyr o wahanol gefndiroedd, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a siaradwyr Cymraeg. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb, yn osgoi rhwystrau anfwriadol, ac yn ystyried anghenion y Gymraeg.

Mae Bwrdd Rhaglen Dileu Elw a'i ffrydiau gwaith cysylltiedig yn cynnwys cynrychiolaeth o bob sector perthnasol, gan gynnwys darparwyr cyhoeddus, nid-er-elw ac er-elw gwasanaethau preswyl a maethu plant. Mae Bwrdd y Rhaglen wedi cael gwybod am y gwaith hwn ac wedi darparu mewnbwn ar gyfnodau allweddol. Bydd yn parhau i fod mewn cysylltiad wrth i'r polisi ddatblygu, a bydd cyfleoedd i aelodau gynnig adborth a llywio camau gweithredu ac adolygu i'r dyfodol.

Bydd adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei ddefnyddio i fireinio'r cynnig a bydd yn parhau i lywio camau gweithredu, monitro ac adolygu.

8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Disgwylir i'r cynnig gael effeithiau cadarnhaol arwyddocaol ar bobl, diwylliant a'r Gymraeg, a'r economi, ac effeithiau uniongyrchol bach iawn ar yr amgylchedd.

Pobl a lles cymdeithasol
Yr effaith fwyaf arwyddocaol a ragwelir yw'r effaith ar sefydlogrwydd a lles plant. Drwy ei gwneud yn bosibl trosglwyddo cymeradwyaeth gofalwyr maeth o endid er-elw presennol i endid nid-er-elw newydd, disgwylir i'r cynnig leihau'r risg o darfu ar leoliadau a helpu i

warchod perthynas plant â phobl y maent yn ymddiried ynddynt, sy'n hanfodol i ddiogelwch emosiynol, cyrhaeddiad addysgol a chanlyniadau hirdymor.

Mae'r cynnig hefyd yn cefnogi gofalwyr maeth drwy ddileu'r gofyniad am ailasesu dyblyg lle nad oes newid mewn amgylchiadau wedi digwydd. Mae hyn yn lleihau'r baich gweinyddol, yn cefnogi morâl ac yn helpu i ddal gafael ar bobl ar adeg o bwysau ar y gweithlu. Mae awdurdodau lleol a darparwyr yn elwa drwy leihad yn y tarfu gweithredol a'r cynnydd mewn sicrwydd.

Mae'r effeithiau negyddol posibl yn gyfyngedig, ond yn cynnwys canfyddiad o lefel is o graffu yn sgil trosglwyddo cymeradwyaeth yn hytrach nag ailasesu gofalwyr maeth. Efallai y bydd risgiau o anghysondeb hefyd yn y ffordd y mae "parhad sefydliadol" yn cael ei ddehongli. Mae'r risgiau hyn yn cael eu lliniaru drwy feini prawf clir, trefniadau AGC i gadw golwg, goruchwyliaeth barhaus ac adolygiad gorfodol o fewn 12 mis.

Lles diwylliannol a'r Gymraeg
Mae'r cynnig yn cefnogi parhad diwylliannol drwy helpu plant i aros yn eu lleoliadau presennol, gan gynnwys y rhai lle mae eu perthynas ag eraill yn cyfrannu at eu hunaniaeth, eu hiaith a'u cysylltiad cymunedol. Mae cynnal lleoliadau gyda gofalwyr Cymraeg eu hiaith, lle bo hynny'n berthnasol, yn diogelu mynediad at ofal drwy'r Gymraeg ac yn cefnogi uchelgais Cymraeg 2050.

Ni nodwyd unrhyw effeithiau niweidiol penodol ar y Gymraeg. Disgwylir i osgoi tarfu ar leoliadau gefnogi parhad yn y defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal, a helpu i gynnal hunaniaeth ieithyddol plant.

Lles economaidd
Mae'r cynnig yn creu manteision economaidd clir drwy gynnydd mewn effeithlonrwydd. Mae'n osgoi'r costau sy'n gysylltiedig â phrosesau ailasesu llawn, gan gynnwys amser gwaith cymdeithasol, gweinyddu paneli a gwiriadau statudol. Mae'r arbedion hyn yn galluogi darparwyr ac awdurdodau lleol i ailgyfeirio adnoddau tuag at gefnogaeth, hyfforddiant ac ansawdd gwasanaeth.

Mae hefyd yn helpu i osgoi costau mwy sylweddol sy'n gysylltiedig â methiant lleoliadau, gan gynnwys defnyddio lleoliadau brys neu y tu allan i'r ardal, sy'n aml yn ddrutach ac yn llai sefydlog. Drwy helpu i ddal gafael ar y gweithlu a chynnal capasiti, mae'r cynnig yn cyfrannu at system faethu fwy cynaliadwy a gwydn.

Er y gallai fod rhai costau gweithredu tymor byr i Lywodraeth Cymru ac AGC (e.e. canllawiau, goruchwylio), disgwylir i'r rhain fod yn gymesur a'u bod yn ad-dalu mwy na'u gwerth am arian drwy arbedion yn y tymor hirach.

Lles amgylcheddol
Nid oes i'r cynnig unrhyw effeithiau uniongyrchol arwyddocaol ar yr amgylchedd. Yn anuniongyrchol, drwy leihau dyblygu gweinyddol ac osgoi teithio diangen sy'n gysylltiedig

â phrosesau ailasesu, gall fod mân effeithiau cadarnhaol, er nad oes disgwyl i'r rhain fod yn sylweddol.

Cynnwys
Bydd yr ymgynghoriad sydd ar ddod yn ceisio archwilio materion allweddol sy'n berthnasol i'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan y cynnig. Bydd hyn yn cynnwys deall barn ar bwysigrwydd cynnal sefydlogrwydd a pharhad i blant mewn lleoliadau maeth, ochr yn ochr â'r angen i leihau prosesau gweinyddol diangen ar gyfer gofalwyr maeth a gweithwyr proffesiynol.

Bydd yr ymgynghoriad hefyd yn ystyried sut y gellir cydbwyso unrhyw hyblygrwydd arfaethedig â chynnal safonau diogelu cadarn a goruchwyliaeth briodol.

Bydd adborth a dderbynnir yn helpu i brofi rhagdybiaethau, nodi unrhyw effeithiau anfwriadol, a llywio ffurf terfynol y cynnig i sicrhau ei fod yn gymesur, yn gyflawnadwy ac yn cael ei ategu gan fesurau diogelu effeithiol.

Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn sicrhau effeithiau cadarnhaol net cryf, yn enwedig i blant, gan reoli risgiau ar yr un pryd drwy fesurau diogelu a goruchwyliaeth glir.

8.3 Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu**
- **yn osgoi, yn lleihau, neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Nod y cynnig yw sicrhau'r cyfraniad cadarnhaol mwyaf posibl at y nodau llesiant, gan leihau'r risgiau ar yr un pryd drwy fesurau diogelu, goruchwylio a monitro parhaus clir.

Sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at amcanion a nodau llesiant

Mae'r cynnig yn cefnogi'n uniongyrchol nifer o'r nodau llesiant:

- **Cymru iachach**: Drwy ei gwneud yn bosibl sicrhau parhad lleoliadau maeth, mae'r cynnig yn hyrwyddo sefydlogrwydd emosiynol a lles seicolegol plant. Er mwyn cryfhau'r cyfraniad hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y canllawiau yn pwysleisio pwysigrwydd parhad gofal, ymarfer sy'n ystyriol o drawma, a chynnal perthynas plant â phobl y maent yn ymddiried ynddynt.
- **Cymru sy'n fwy cyfartal**: Mae plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal ymhlith y grwpiau mwyaf agored i niwed. Mae'r cynnig yn helpu i leihau anghydraddoldebau drwy osgoi tarfu ychwanegol wrth bontio rhwng darparwyr. Bydd dadansoddi ffactorau cydraddoldeb yn gyson ac ymgysylltu â sefydliadau cynrychiadol yn

sicrhau bod anghenion plant a gofalwyr sydd â nodweddion gwarchodedig yn parhau i gael eu hystyried a'u diwallu.

- **Cymru o gymunedau cydlynus**: Mae cynnal y lleoliadau presennol yn helpu plant i aros yn eu cymunedau, gan gefnogi cysylltiadau â theulu, ysgolion a rhwydweithiau cymdeithasol. Bydd y canllawiau gweithredu yn atgyfnerthu pwysigrwydd sefydlogrwydd lleoliadau lleol.

- **Cymru lewyrchus**: Drwy leihau dyblygu a chostau gweinyddol, mae'r cynnig yn hwyluso defnydd mwy effeithlon o adnoddau cyhoeddus. Gellir ailgyfeirio arbedion i wasanaethau rheng flaen, gan gynnwys hyfforddiant, recriwtio a chefnogaeth i ofalwyr, gan gryfhau cynaliadwyedd y system faethu.

- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**: Mae'r cynnig yn cefnogi parhad lleoliadau cyfrwng Cymraeg lle maent yn bodoli, gan helpu plant i gadw eu hunaniaeth ieithyddol. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y canllawiau yn annog darparwyr i ystyried anghenion iaith mewn trefniadau pontio ac yn diogelu mynediad at wasanaethau Cymraeg.

- **Cymru gydnerth (yn anuniongyrchol):** Er mai bach iawn yw'r effeithiau amgylcheddol, gallai lleihau prosesau ailasesu diangen dorri ychydig ar unrhyw deithio a'r defnydd o adnoddau gweinyddol.

Yn ogystal, mae'r cynnig yn cefnogi hawliau plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn benodol yr hawl i sefydlogrwydd, gofal a chael cyfranogi. Bydd ymgysylltu parhaus â sefydliadau plant a mecanweithiau adborth yn sicrhau mai lleisiau plant sy'n parhau i lywio'r camau gweithredu ac adolygu.

Cryfhau cyfraniadau ar draws meysydd polisi

Er mwyn cynyddu'r effaith ymhellach, bydd Llywodraeth Cymru:

- **Yn gweithio gydag AGC, awdurdodau lleol a darparwyr** i ymgorffori'r cynnig mewn diwygiadau ehangach sy'n gysylltiedig â Deddf 2025.
- **Yn hyrwyddo canllawiau cenedlaethol cyson** i sicrhau y cânt eu rhoi ar waith yn deg ledled Cymru.
- **Yn alinio'r gweithredu â strategaethau'r gweithlu** i gefnogi ymdrechion i recriwtio a dal gafael ar ofalwyr maeth, drwy sicrhau proses bontio lyfn i ofalwyr presennol a hyrwyddo'r gwaith o recriwtio gofalwyr newydd o fewn gwasanaethau nid-er-elw ac awdurdodau lleol.
- **Yn annog ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid**, gan gynnwys grwpiau Cymraeg eu hiaith a sefydliadau cydraddoldeb, i fireinio'r gweithredu dros amser.

Lliniaru effeithiau negyddol

Mae'r prif risgiau a nodwyd yn ymwneud â chanfyddiadau o lefel is o graffu, anghysondebau posibl yn y ffordd y cymhwysir y canllawiau, a chymhlethdod gweithredol wrth bontio. Bydd y rhain yn cael eu lliniaru gan:

- **Fesurau diogelu cadarn**: Meini prawf cymhwysedd clir yn diffinio pryd y gellir trosglwyddo cymeradwyaeth, gan sicrhau bod hyn yn digwydd dim ond lle mae parhad sefydliadol a gweithredol amlwg.
- **Trefniadau cadw golwg ar lefel reoleiddiol**: Bydd AGC yn parhau i gadw golwg ar ddarparwyr a phrosesau pontio, gan sicrhau y cydymffurfir â'r safonau diogelu.
- **Goruchwyliaeth a gwiriadau cyson**: Bydd gofalwyr maeth yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r gofynion goruchwylio, cymorth ac adolygu presennol.
- **Amserlen i'w dilyn**: Adolygiad gorfodol o'r achosion a gymeradwywyd drwy drosglwyddo o fewn 12 mis i gadarnhau bod y trefniant yn dal yn addas.
- **Canllawiau a chyfathrebu clir**: Bydd canllawiau cenedlaethol yn help i ddehongli a gweithredu'n gyson ledled Cymru, gan leihau'r risg o wyro.
- **Monitro a gwerthuso**: Bydd data yn cael ei gasglu ar sefydlogrwydd lleoliadau, i ba raddau y caiff y gweithlu ei gadw, a chanlyniadau'r pontio, er mwyn nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn gynnar.

Hyrwyddo meysydd effaith ehangach

- **Hawliau plant**: Parhau i ymgysylltu â grwpiau eiriolaeth a sefydliadau plant i sicrhau bod y camau a gymerir yn adlewyrchu profiadau plant. Ystyrir llunio gwybodaeth sy'n addas i blant lle bo hynny'n briodol.
- **Cydraddoldeb**: Bydd parhau i lunio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn nodi ac yn mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau lle gellid gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un.
- **Y Gymraeg**: Atgyfnerthu'r disgwyliadau ynghylch cynnal darpariaeth Gymraeg a monitro unrhyw effeithiau ar fynediad ati.
- **Bioamrywiaeth a'r amgylchedd**: Er bod yr effeithiau yn gyfyngedig, nid oes angen gweithredu pellach y tu hwnt i arferion gweithio cynaliadwy safonol.

Risgiau eraill

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol sydd heb eu lliniaru. Mae unrhyw risgiau eraill (megis mân-amrywiadau o ran dehongli) yn gymesur, a chânt eu rheoli'n weithredol drwy ganllawiau, a mecanweithiau goruchwylio ac adolygu. Mae manteision gwell sefydlogrwydd a llai o darfu yn sylweddol fwy na'r risgiau hyn.

Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn gytbwys ac yn gymesur, gan sicrhau'r canlyniadau cadarnhaol mwyaf posibl i blant a'r system ofal, gan gynnal mesurau diogelu priodol ar yr un pryd.

8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Caiff effaith y cynnig ei monitro drwy'r mecanweithiau rheoleiddiol, gweithredol a chasglu data presennol, ynghyd â phrosesau gwerthuso wedi'u targedu.

Bydd AGC yn chwarae rôl ganolog o ran cadw golwg cyson, gan gynnwys monitro prosesau pontio rhwng darparwyr, sicrhau y cydymffurfir â meini prawf cymhwysedd, a chynnal y sicrwydd bod safonau diogelu yn cael eu cynnal. Bydd awdurdodau lleol a darparwyr hefyd yn monitro sefydlogrwydd lleoliadau, i ba raddau y cedwir niferoedd gofalwyr maeth, a pharhad gwasanaethau drwy brosesau rheoli perfformiad arferol.

Ymhlith y dangosyddion allweddol fydd:

- Sefydlogrwydd lleoliadau (gan gynnwys cyfraddau tarfu yn ystod y pontio)
- I ba raddau y cedwir niferoedd gofalwyr maeth a chapasiti'r gweithlu
- Amseroldeb a chanlyniadau'r adolygiad 12 mis yn dilyn trosglwyddo cymeradwyaeth
- Adborth gan blant, gofalwyr maeth a darparwyr

Cesglir adborth ansoddol drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys cyrff cynrychiadol a sefydliadau eiriolaeth, i gofnodi profiadau personol a nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

Cynhelir adolygiad ôl-weithredu ar ôl cam cychwynnol y pontio rhwng darparwyr i asesu a yw'r polisi wedi cyflawni ei amcanion, yn enwedig o ran lleihau'r tarfu a'r baich gweinyddol, gan gynnal y mesurau diogelu ar yr un pryd. Bydd yr adolygiad hwn yn tynnu ar ddata meintiol ac adborth rhanddeiliaid.

Bydd y canfyddiadau yn llywio unrhyw fireinio angenrheidiol i'r canllawiau neu'r trefniadau rheoleiddiol. Bydd gwaith monitro cyson yn sicrhau bod y cynnig yn parhau i gefnogi sefydlogrwydd, effeithlonrwydd a safonau gofal uchel wrth i'r diwygiadau ehangach o dan Ddeddf 2025 fynd rhagddynt.